# Datganiad ynghylch Penderfyniad Eithriadol

Cymorth Staffio i'r Aelodau (gan gynnwys Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol[1])

Datganiad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o dan adran 14(4) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

Penderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ar 10 Gorffennaf 2025, gwnaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") benderfyniad mewn perthynas ag ad-dalu costau yr eir iddynt gan Aelodau wrth gyflogi staff o dan adran 20(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Penderfyniad y Bwrdd yw caniatáu i Aelodau presennol hawlio hyd at £1,275 am y gost o gael cyngor allanol arbenigol i'w helpu i baratoi ar gyfer gweithredu'r fframwaith cyflogau a graddfeydd cyflog a fydd yn berthnasol i staff a gyflogir gan yr Aelodau yn y Seithfed Senedd (hynny yw, y Senedd a gaiff ei ffurfio yn dilyn etholiad y Senedd ar 7 Mai 2026).

Bydd y swm o £1,275 yn cynnwys TAW a bydd yn cael ei ariannu o gronfeydd canolog.[2] Rhaid i'r cyngor allanol arbenigol beidio â bod yn wybodaeth y gellir ei gael gan Gomisiwn y Senedd. Rhaid i'r hawliadau gael eu gwneud cyn 1 Ebrill 2026.

Rhesymau'r Bwrdd dros wneud Penderfyniad Eithriadol

O dan amgylchiadau arferol, pan fydd y Bwrdd wedi gwneud penderfyniad sy'n cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud ag ad-dalu costau yr eir iddynt gan yr Aelodau wrth gyflogi staff, ni all y Bwrdd addasu'r ddarpariaeth honno wedyn o ran y flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad hwnnw'n dod i rym ynddi am y tro cyntaf (gweler adran 14(2) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010").

Fodd bynnag, yn unol ag adran 14(3) o Fesur 2010, mae'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan adran 14(2) beidio â bod yn gymwys.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod angen penderfyniad eithriadol am y rhesymau a ganlyn:

---

[1] O ran Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol, bydd y swm o £1,275 ar gael i arweinydd "Plaid Wleidyddol" fel y'i diffinnir ar hyn o bryd yn y Penderfyniad.

[2] Ystyr cronfeydd canolog yw cyllid a ddarperir drwy'r Penderfyniad ond nad yw'n rhan o unrhyw lwfans penodol sydd ar gael i Aelodau neu Bleidiau Gwleidyddol o dan y Penderfyniad.

- Ar 10 Gorffennaf 2025, penderfynodd y Bwrdd gyflwyno fframwaith cyflogau a graddfeydd cyflog newydd ar gyfer staff a gyflogir gan Aelodau yn y Seithfed Senedd.

- Bydd y fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau wneud penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â chyflogi eu staff, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch nodi rolau swydd, graddfeydd cyflog a disgrifiadau swyddi.

- Mae'n hanfodol bod yr Aelodau presennol sy'n cael eu hailethol yn y Seithfed Senedd ac y bydd yn ofynnol iddynt weithredu'r fframwaith newydd ddechrau paratoi ar gyfer y fframwaith cyflog a graddfeydd cyflog newydd yn gynnar. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r fframwaith newydd.

- Er mwyn sicrhau'r trosglwyddiad llyfn i'r fframwaith newydd, efallai y bydd angen cyngor allanol arbenigol ar Aelodau (yn ogystal â'r cyngor y gall y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau ei ddarparu).

  Mae hon yn ddarpariaeth untro gyfyngedig i helpu Aelodau i baratoi ar gyfer newid sylweddol yn y ffordd y bydd yn ofynnol iddynt gyflogi staff yn y Seithfed Senedd.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr ystyriaethau hyn yn esgor ar amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud y penderfyniad hwn.